# Gwerthuso cyfraniad gwirfoddolwyr tuag at nodau eich sefydliad

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwerthuso effaith gwirfoddoli ar eich sefydliad. Mae'n cynnwys hyrwyddo gwirfoddoli o fewn eich sefydliad a'r tu hwnt iddo, a gwella'r ffordd y mae gwirfoddolwyr yn cymryd rhan.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cytuno pa nodau sefydliadol a chyfraniadau gan wirfoddolwyr y mae angen i chi eu hasesu
2. cytuno ar y meini prawf y byddwch yn eu defnyddio i asesu cyfraniadau gan wirfoddolwyr
3. nodi'r wybodaeth y mae ei hangen arnoch a'r dulliau mwyaf effeithiol o'i chasglu
4. casglu gwybodaeth berthnasol a gwirio ei bod yn gywir ac yn gyfredol
5. dadansoddi gwybodaeth i asesu gwerthu cyfraniadau gan wirfoddolwyr at nodau eich sefydliad ac effaith gwirfoddoli ar eich gwirfoddolwyr
6. gwirio gyda gwirfoddolwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid eraill a phobl sy'n gwneud penderfyniadau bod eich asesiad yn realistig
7. cofnodi eich asesiad o gyfraniadau gan wirfoddolwyr a'r dystiolaeth sy'n ategu'ch asesiad
8. nodi'r rhanddeiliaid a'r gwirfoddolwyr rydych am gyfathrebu â nhw a'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chael
9. nodi'r dulliau a'r arddulliau mwyaf effeithiol o gyfathrebu â'ch gwirfoddolwyr a'ch rhanddeiliaid
10. llunio a chyflwyno eich dadansoddiad a'ch tystiolaeth mewn ffordd sy'n bodloni anghenion eich gwirfoddolwyr a'ch rhanddeiliaid
11. hyrwyddo gwerth gwirfoddoli i'r sefydliad ac i wirfoddolwyr
12. ymateb i geisiadau am eglurhad a rhagor o wybodaeth
13. gwerthuso effeithiolrwydd asesu a chyfleu cyfraniadau gwirfoddolwyr a chofnodi eich gwerthusiad er gwybodaeth yn y dyfodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. pwysigrwydd nodi'r meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i fesur cyfraniadau gan wirfoddolwyr a'r meini prawf y gallech eu defnyddio
4. sut i ddadansoddi gwybodaeth feintiol ac ansoddol
5. egwyddorion cyfathrebu effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau
6. pwysigrwydd nodi anghenion gwybodaeth
7. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i'w haddasu i fodloni anghenion y gynulleidfa
8. pwysigrwydd ceisio dulliau cyfathrebu newydd ac arloesol
9. y dulliau y gallwch eu defnyddio i gasglu gwybodaeth.
10. pwysigrwydd monitro a gwerthuso
11. sut i sefydlu prosesau a dulliau monitro a gwerthuso
12. pwysigrwydd a gwerth gwirfoddoli i'ch sefydliad ac i wirfoddolwyr
13. nodau gwirfoddoli eich sefydliad
14. pwysigrwydd asesu cyfraniad gwirfoddolwyr at nodau eich sefydliad a sut y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon

SFJHK4

Gwerthuso cyfraniad gwirfoddolwyr tuag at nodau eich sefydliad

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 26 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | UKWHA5 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | Gwirfoddolwyr; gwerthuso; gwerthusiad; cyfraniad; sefydliad; nodau; effaith; |